
Astudiaeth Achos

# Dylanwadu Ar Gyfraith A Pholisi I Amddiffyn A Chefnogi Dioddefwyr Masnachu Pobl




**YMCHWILYDD**

**Yr Athro Ryszard Piotrowicz**


**TROSOLWG**

Mae ymchwil yr Athro Piotrowicz wedi cael effaith sylweddol ar gyfraith a pholisi masnachu pobl mewn pedwar maes:

- Monitro cydymffurfiaeth gwladwriaethau gyda'u rhwymedigaethau dan Gonfensiwn Gwrth-Fasnachu Cyngor Ewrop
- Llywio polisi gwladwriaethau
- Gwreiddio egwyddor peidio â chosbi pobl sydd wedi'u masnachu mewn systemau cyfreithiol cenedlaethol; a
- Darparu hyfforddiant a chanllawiau i wladwriaethau ar yr ystyriaethau cyfreithiol ynghlwm wrth fasnachu pobl

Arweiniodd hyn at newidiadau mewn cyfreithiau a pholisïau ar fasnachu pobl. Yn ogystal, dyfeisiodd a chyfrannodd at raglenni hyfforddi ar fasnachu pobl i weision sifil, cyrff anllywodraethol a sefydliadau rhyngwladol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynrychioli effaith barhaus a sylweddol ar bolisi ac ymarfer.

**YR YMCHWIL**

Mae ymchwil Piotrowicz yn canolbwyntio ar reoleiddio cyfreithiol ym maes masnachu pobl. Mae'r ymchwil yn egluro'r hawl sydd gan bobl sydd wedi'u masnachu, neu sydd mewn perygl o gael eu masnachu, i warchodaeth gyfreithiol, a rhwymedigaethau elfennau gwladwriaethol i ddarparu'r cyfryw warchodaeth. Mae hefyd yn esbonio dyletswydd gwladwriaethau i beidio â chosbi'r rheiny sydd wedi'u masnachu.

> **"Mae cyfraniad ac ymrwymiad parhaus [Piotrowicz] yn y maes hwn (caethwasiaeth fodern a masnachu pobl) wedi bod yn hynod werthfawr"**
>
> **DIRPRWY GYFARWYDDWR CAETHWASIAETH FODERN SWYDDFA GARTREF Y DU, MIS CHWEFROR 2021**



**YR EFFAITH**

**MONITRO CYDYMFFURFIAETH GWLADWRIAETHAU GYDA'U RHWYMEDIGAETHAU DAN GONFENSIWN GWRTH-FASNACHU CYNGOR EWROP**

Helpodd Piotrowicz i lunio'r agenda a phenderfynu ar flaenoriaethau Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (GRETA). Cyfeirir yn fynych at ganllawiau rhyngwladol a pholisïau Ewropeaidd sydd wedi'u llywio gan ymchwil Piotrowicz yn adroddiadau monitro gwledydd GRETA.

**LLYWIO POLISI GWLADWRIAETHAU**

Mae gwaith monitro gwledydd Piotrowicz wedi effeithio'n uniongyrchol ar gyfreithiau a pholisïau gwrth-fasnachu gwladwriaethau. Fel aelod o GRETA, gwnaeth Piotrowicz 11 o ymweliadau monitro gwledydd rhwng 2013 a 2020. Rhaid i'r gwledydd dan sylw roi'r argymhellion a fabwysiadwyd ar ôl yr ymweliadau hyn ar waith er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau gwrth-fasnachu.

**GWREIDDIO EGWYDDOR PEIDIO Â CHOSBI POBL SYDD WEDI'U MASNACHU MEWN SYSTEMAU CYFREITHIOL CENEDLAETHOL**

Cyfeiriwyd at adroddiad Piotrowicz ar beidio â chosbi dioddefwyr masnachu i Gydlynydd Arbennig ar gyfer Gwrth-Fasnachu yr OSCE mewn canllawiau i wladwriaethau a gyhoeddwyd gan y Cenhedloedd Unedig (CU), mewn datganiadau polisi gan Rapporteur Arbennig y CU ar Fasnachu Pobl, gan lywodraeth y DU a gan Grŵp Cydlynu Rhyngasiantaethol y CU yn erbyn Masnachu Pobl (ICAT). Mae holl adroddiadau gwledydd GRETA ers 2015 hefyd yn cyfeirio at bolisi OSCE o beidio â chosbi pobl sydd wedi'u masnachu fel arweiniad i wladwriaethau.

**DARPARU HYFFORDDIANT A CHANLLAWIAU I WLADWRIAETHAU AR YR YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL YNGHLWM WRTH FASNACHU POBL**

Cyfeiriwyd at ganllawiau masnachu pobl Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR), a gafodd eu llywio gan ymchwil Piotrowicz, gan lywodraeth y DU, a gan Grŵp Cydlynu Rhyngasiantaethol y CU yn erbyn Masnachu Pobl (ICAT). Fe'u defnyddiwyd hefyd ym mhecynnau hyfforddi'r UNHCR ar fasnachu pobl. Yn ogystal, creodd Piotrowicz raglenni hyfforddi ym maes cyfraith mudo ar draws Ewrop, a drefnwyd gan Gyngor Ewrop, y Sefydliad Mudo Rhyngwladol (IOM) a'r Undeb Ewropeaidd.